



Ein cyf/Our ref KS/06350/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

06 Mehefin 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Mai ynghylch Deiseb P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (Coridor yr A55/A494).

Er bod yr Opsiwn Coch yn croesi Dyffryn Lead Brook a'i goetir hynafol, dewiswyd lleoliad y groesfan lle y mae modd gosod traphont dros y dyffryn hynod serth er mwyn effeithio cyn lleied â phosibl ar y cwrs dŵr a'r llystyfiant. Bydd amryw o strwythurau yn cael eu hystyried i sicrhau parhad y coetir toredig a bod bywyd gwyllt yn gallu parhau i symud o dan y ffordd. Byddai'r gwaith o liniaru'r effeithiau niweidiol yn cynnwys plannu coetir newydd mewn ardaloedd mawr sydd wedi'u targedu i ddisodli neu wella sgrinio yn yr hirdymor.

Mae Cynllun Gwella Pont Afon Dyfrdwy yr A494 yn ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r Bont bresennol sy'n rhy hen. Bydd y gwelliant yn helpu i fynd i'r afael â'r trefniadau presennol ar gyfer 'rhwystrau igam-ogamu' ar yr A494 tua'r gorllewin, ond ni fydd yn mynd i'r afael â'r problemau cyffredinol o ran tagfeydd traffig yn ardal Coridor Sir y Fflint.

Nid ydym yn rhagweld y bydd angen uwchraddio Pont Sir y Fflint ac fel rhan o gam nesaf y datblygiad, byddwn yn ymchwilio i'r angen am unrhyw lonydd ychwanegol ar yr A55 o Laneurgain i Dreffynnon. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn cynnwys asesiad economeg i sicrhau bod unrhyw ofynion am lonydd ychwanegol yn darparu gwerth am arian.

O ran arolygon traffig, cynhaliwyd arolygon cyfweld ar ymyl y ffordd ddiwedd mis Medi a dechrau mis Hydref 2015, yn unol â'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Bwriadwyd cynnal yr holl arolygon hyn am gyfnod o 12 awr (rhwng 07:00 - 19:00). Cynhaliwyd yr arolygon ar ddydd Mawrth 29 Medi 2015; dydd Mercher 30 Medi 2015; dydd Iau 1 Hydref 2015; a dydd Mawrth 6 Hydref 2015. Ar ben hynny, cynhaliwyd cyfrifiadau awtomatig o'r traffig yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2015 mewn 14 lleoliad a chynhaliwyd arolygon fideo mewn 5 lleoliad lle casglwyd data am 7 diwrnod ym mhob un.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hefyd, cyfrifwyd y mathau o gerbydau â llaw mewn 32 lleoliad ym mis Hydref 2015 dros gyfnod o 12 awr rhwng 07:00 a 19:00 ar un diwrnod arferol o'r wythnos ym mhob lleoliad.

Defnyddiwyd yr arolygon hyn i ddatblygu model traffig o ardal Coridor Sir y Fflint a gafodd ei ddilysu i sicrhau bod y model hwnnw yn cynrychioli llif gwirioneddol y traffig ar y ffyrdd presennol.

Mae tri chyfnod amser wedi'u modelu, fel yr argymhellwyd gan yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Yn benodol, mae'r model traffig yn cynrychioli diwrnod arferol rhwng dydd Llun a dydd Iau yn 2015 yn unol â'r Canllawiau Modelu Traffig Cenedlaethol. Mae'r modelau yn seiliedig ar awr prysuraf y bore (rhwng 08:00 a 09:00); awr rhwng y cyfnodau prysuraf (cyfartaledd rhwng 10:00 a 16:00); a'r awr prysuraf gyda'r nos (rhwng 17:00 a 18:00).

Roedd canlyniadau'r traffig, felly, yn gynrychiadol ac fe'u defnyddiwyd i ddatblygu model trafndiaeth o ardal Sir y Fflint. Yna, rhagwelwyd y traffig gan ddefnyddio model trafndiaeth i bennu effaith yr opsiynau Coch a Glas. Roedd yr arolygon traffig, felly, yn gynrychiadol yn unol â'r safonau cenedlaethol, ac fe'u defnyddiwyd yn gywir i bennu manteision economaidd yr opsiynau Coch a Glas.

Cynhaliwyd ymgyngoriad cyhoeddus dros gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 13 Mawrth a 5 Mehefin 2017. Cynhaliwyd dwy arddangosfa gyhoeddus yn ystod yr wythnos a oedd yn dechrau ar 20 Mawrth am ddau ddiwrnod mewn dau leoliad lleol. Dewiswyd cynnal yr arddangosfeydd yn Ewloe a Chei Connah oherwydd fe'u hystyriwyd yn lleoliadau cyfleus a hygyrch ar gyfer y rhan fwyaf o bobl y mae'r opsiynau yn effeithio arnynt. Fe'i hysbysebwyd yn eang drwy amryfal gyfryngau gan gynnwys papurau newyddion, gorsafoedd radio, posteri lleol ac ar ein gwefan. Hefyd, hysbysebwyd arddangosfeydd yr ymgyngoriad cyhoeddus drwy 5000 o llythyrau a ddosbarthwyd i eiddo o fewn 500m o'r llwybrau. Yn dilyn yr adborth, cynhaliwyd arddangosfa bellach ar 10 Mai yng Nghampws Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn Llaneurgain. Mae llythyrau sy'n hysbysebu'r arddangosfa wedi'u dosbarthu i'r rheini y mae'r cynllun wedi effeithio arnynt yn ardal Llaneurgain. Mynychodd 1,842 o bobl yr arddangosfeydd a dychwelwyd 2,436 o holiaduron, gyda 100 o sylwadau pellach wedi dod i law drwy e-bost, llythyron a dros y ffôn. Roedd yr ymgyngoriad, felly, yn eang ac fe'i hystyriwyd yn un effeithiol.

Cyhoeddwyd fy ngweledigaeth ar gyfer trafndiaeth yn y Gogledd a Metro'r Gogledd-ddwyrain ym mis Mawrth 2017. Ein ffocws yw creu hybiau trafndiaeth integredig ar safleoedd cyflogaeth allweddol ledled y Gogledd ac ardal Dyfrdwy-Mersi. Bydd hynny'n ymwneud â gwella'r cysylltedd o fewn, i ac o a rhwng hybiau. Yn y Gogledd, Bangor/Menai, Bae Colwyn/Llandudno/Conwy, Abergele/y Rhyl/Llanelwy, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fydd yr hybiau hyn.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi'i gomisiynu i ddatblygu cynlluniau am orsaf integredig yn Shotton a gorsaf newydd ar gyfer Parcfordd Glannau Dyfrdwy gan weithio mewn partneriaeth â Network Rail a Chyngor Sir y Fflint. Hefyd, dyfarnais £2.8 miliwn o gyllid yn 2017-18 i Gyngor Sir y Fflint am gynlluniau trafndiaeth integredig yn ardal Glannau Dyfrdwy a fydd yn cyfrannu at gyflenwi Metro'r Gogledd-ddwyrain. Roedd y cyllid ar gyfer cynlluniau i wella mynediad i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac oddi mewn iddo, drwy gefnogi'r broses o gaffael y gwasanaeth parcio a theithio arfaethedig, gwella gwasanaeth gwennol Glannau Dyfrdwy, darparu cyfleusterau teithio llesol a bws o fewn y Parc, a gwella'r cysylltiad bws o Barth 2 i Barth 3. Yn ogystal â hyn, dyfarnais ychydig dan £1.5 miliwn yn 2018-19 ar gyfer cyfleusterau teithio llesol a bws pellach ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Cyhoeddwyd dros £4.3miliwn ar gyfer 2019-20 ar 16 Mai ar gyfer mesurau blaenoriaeth pellach sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau o'r fath yng Nglannau Dyfrdwy. Bydd y cynlluniau hyn yn gwella mynediad i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac o fewn iddo, a'r Ardal Fenter yn ehangach, gan gysylltu cymunedau gyda swyddi a gwasanaethau. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnig opsiwn teithio carbon isel sy'n galluogi pobl i adael eu cerbydau gartref a fydd o fudd i'r amgylchedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport